Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Caban Cegin

**Ysgol Glan Cegin**
**Maesgeirchen**
**Bangor**
**Bangor**
**LL57 1ST**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Caban Cegin

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Caban Cegin |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Kerry Griffiths<br><br>Lowri Griffith |
| Person â gofal | Kerry Griffiths<br><br>Lowri Griffith |
| Nifer y lleoedd | 73 |
| Amrediad oedran y plant | 18 mis - 12 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 6 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09:00 - 18:00 Dydd Llun i Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r Cynnig Gweithredol y Gymraeg ar waith yn y lleoliad. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 08/05/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/11/2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/02/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant o bob oedran yn annibynnol yn ystod amser byrbryd

A2 Sicrhau bod cysondeb yn y cyfleusterau a'r adnoddau allanol ar gyfer y trydydd ardal chwarae

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron pob plentyn yn dangos boddhad a hapusrwydd ac yn rhyngweithio'n dda gydag ymarferwyr ac ymwelwyr, maent yn awyddus iawn i siarad gyda ni ac yn hapus braf eistedd mewn grŵp yn siarad gyda'i gilydd. Mae llawer o blant yn mynegi eu teimladau'n glir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy yr hoffent chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, mae'r rhan fwyaf yn symud rhwng gwahanol weithgareddau yn hyderus. O ganlyniad, maent yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol er enghraifft wrth ddewis llyfr neu ddefnyddio'r adnoddau wrth chwarae rôl yn y tŷ bach twt. Mae llawer o blant yn dangos cymhelliant a dyfalbarhad yn eu chwarae a dysgu. Er enghraifft maent yn chwarae gydag adnoddau sy'n eu diddori am amser estynedig.

Mae bron bob plentyn yn fodlon ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae bron bob un yn cyrraedd yn hapus, yn llawn bywyd ac yn ymdopi heb drafferth wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau ar weithgareddau yn annibynnol yn syth wrth iddynt gyrraedd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau a'u pryderon. Er enghraifft, maent yn mynd at ymarferwyr am gymorth gyda theganau neu offer, pan fo angen.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd a'r ymarferwyr. Mae rhai plant yn rhannu adnoddau yn dda, fel rhannu adnoddau llenwi a gwagio yn yr ardal ddŵr. Mae bron pob plentyn yn ymuno mewn caneuon yn frwdfrydig ac yn dangos pleser a mwynhad wrth wneud. Mae bron pob plentyn yn rheoli eu hymddygiad yn dda.

Mae bron bob plentyn yn hapus i gyd-chwarae gyda'i ffrindiau a'r ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn gwneud hynny'n hyderus,gan ddilyn eu diddordebau. Maent yn hoffi creu adeiladau manwl gyda'r blociau bach. Maent yn defnyddio'u dychymyg yn dda wrth chwarae ac yn dysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain a sut i gadw'n iach. Mae llawer o blant yn dyfalbarhau ar weithgareddau am amser priodol.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth arbrofi gydag amrywiaeth o brofiadau diddorol. Er enghraifft, mae rhai yn mwynhau arbrofi yn y toes gydag amrywiaeth o ddeunyddiau ac eraill yn mwynhau golchi anifeiliaid yn yr ardal ddŵr. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau annibynnol yn dda. Er enghraifft, maent yn dewis a defnyddio amrywiaeth o liwiau paent i gymysgu'n annibynnol ac maent yn hyderus wrth wneud. Mae llawer o blant yn defnyddio cyfarpar chwarae mawr fel llithren a beiciau gyda rheolaeth gynyddol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad:

Mae ymarferwyr yn dilyn systemau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Maent yn cadw holl gofnodion am unrhyw bryderon, damweiniau, digwyddiadau a gwybodaeth berthnasol yn ddiogel a manwl. Mae hyn yn cael ei fonitro yn rheolaidd gan yr arweinyddion. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod anghenion plant ag anawsterau ychwanegol yn effeithiol iawn. Maent yn datblygu strategaethau wedi'u seilio ar asesiadau manwl. Mae'r lleoliad yn defnyddio asesiadau cyfathrebu pwrpasol ar gyfer pob plentyn wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad er mwyn adnabod eu hanghenion o ran iaith a chyfathrebu. Maent yn defnyddio canfyddiadau'r asesiadau i greu grwpiau targed er mwyn datblygu medrau ieithyddol y plant. Maent yn cydweithio ag asiantaethau allanol yn drwyadl er mwyn ymateb i unrhyw anghenion unigol, er enghraifft trwy gydweithio'n effeithiol gyda staff 'Dechrau'n Deg' a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae ymarferwyr wedi datblygu partneriaethau llwyddiannus â'r rhieni i sicrhau cefnogaeth briodol i'w plant.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o'r ymarferwyr, sy'n sicrhau dealltwriaeth o'r prosesau i'w dilyn. Mae'r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol yn fwriadus. Mae ymarferwyr yn dysgu'r plant i gadw'n iach trwy baratoi byrbrydau a diodydd iach. Fodd bynnag, nid yw plant o bob oedran yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn siarad â phlant yn ddeallus, ac mewn iaith maent yn ei ddeall. Mae ymarferwyr yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth dda am anghenion a hoffterau pob plentyn. Maent yn gweithredu ar wybodaeth gan rieni wrth gofrestru ac maent yn wybodus am anghenion unigolion. Mae'r ymarferwyr yn modelu ymddygiad effeithiol ac yn dangos parch tuag at y plant pob tro.

Mae staff yn cydnabod rhyngweithiadau cadarnhaol ac yn canmol plant am eu cyflawniadau. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau diddorol ar gyfer y plant. Er enghraifft, maent fel grŵp yn casglu afalau o'r goedwig er mwyn coginio crymbl afal a'i fwyta.

Mae'r Cynnig Gweithredol y Gymraeg ar waith yn y lleoiliad. Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig iawn ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cyflawn ac yn cynllunio gweithgareddau difyr ar gyfer y plant. Maent yn gweithredu'n gydwybodol er lles y plant ac yn unol â'u galluoedd.

Mae cynllunio’r ymarferwyr yn dilyn diddordebau’r plant yn ddeallus ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu trwy heriau ymarferol. Maent yn ysgogi’r plant yn llwyddiannus ac o ganlyniad, mae’r plant yn ymateb yn frwdfrydig wrth achub eliffantod o’r jyngl gyda hofrennydd wrth chwarae rôl. Mae cyfleoedd da i ddatrys problemau, er enghraifft, wrth i'r plant adeiladu cestyll gyda siapiau tri-dimensiwn a chymysgu lliwiau yn hyderus trwy ddilyn fformiwlâu syml.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn holi’r plant yn fedrus wrth iddynt greu marciau gyda sialc ar y llawr tu allan ac yn eu herio i ddidoli a rhifo gwahanol fathau o bryfaid. Mae dulliau addysgu'r ymarferwyr yn effeithio'n gadarn ar wella medrau gwybyddol y plant a'u gallu i fentro’n annibynnol.

Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) y plant yn cynnig heriau cyson i wella’u medrau digidol cynnar fel arbrofi â chamerâu. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddringo a llithro ar yr offer anturus a chadw at rythm wrth daro drymiau.

Mae pwyslais cadarnhaol gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant, ac i ddathlu amrywiaeth. Er enghraifft, mae’r plant hŷn yn gosod byrddau cyn bwyta byrbryd ac maent yn blasu bwydydd o Fecsico a’r Eidal. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac astudio cestyll yr ardal. Yn ogystal, maent yn gwella defnydd y plant o'r Gymraeg trwy ailadrodd ymadroddion a chanu hwiangerddi’n rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn trefnu ymweliadau buddiol ar gyfer y plant o fewn eu hardal leol fel cerdded i’r siopau cyfagos i brynu blodau a nwyddau i goginio.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol. Maent yn trafod gwelliannau yn synhwyrol gyda’r plant, sy’n bywiogi eu dysgu annibynnol yn fwriadus. Mae’r lleoliad yn darparu gwybodaeth fanwl i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant, drwy ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol, adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn ac ar lafar wrth ddrysau'r lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac yn cynnig cyfleoedd effeithiol a gwerthfawr i’r plant tu mewn i’r adeiladau. Mae’r ymarferwyr yn trefnu’r amgylcheddau mewnol yn bwrpasol i sicrhau ardaloedd diddorol ac ysgogol, sy’n darparu profiadau da i’r plant. Maent yn defnyddio tri caban fel prif ystafelloedd i’r amrediad o oedrannau sy’n mynychu’r lleoliad. O ganlyniad, mae ardaloedd ar gael i blant ddatblygu’n greadigol, i orffwys, i fwyta ac i gymdeithasu gyda’i gilydd yn ôl eu hoedrannau. Mae’r amgylcheddau chwarae yn braf, yn gyfforddus a chysurus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn datblygu ymwybyddiaeth o berthyn drwy arddangos lluniau ohonynt yn chwarae. Mae dau o'r ardaloedd allanol yn cynnig cyfleodd da i blant d arbrofi gydag amrywiaeth o adnoddau mewn amgylchedd ddeniadol ac ysgogol. Mae cynlluniau gan arweinwyr i ddatblygu un o'r ardaloedd allanol er mwyn sicrhau cyfleoedd i'r plant

symud yn annibynnol rhwng gweithgareddau. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod crysondeb yn y cyflysterau a'r adnoddau allanol ar gyfer y trydydd arddal chwarae yn ogystal.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau ar gael sy'n diddori ac yn dal sylw'r plant y tu mewn a thu allan.  Mae'r lleoliad yn lân ac yn ddeniadol ac wedi'i gynnal a'i gadw'n  dda. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn lân, o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel sy'n addas i'r plant fedru gwneud dewisiadau'n annibynnol. Mae'r arddangosfeydd wal yn ddiddorol, yn lliwgar ac yn portreadu gwaith y plant yn dda. Er enghraifft, maent wedi arddangos gwaith Jac a'r Goeden Ffa a peintio gyda dwylo a traed y plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel drwy weithredu ar ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Maent yn asesu risgiau, sy'n cynnwys casglu plant o'r ysgol ar yr un safle. Mae unigolion cyfrifol yn ymateb i faterion sy'n codi yn brydlon. Er enghraifft, maent yn ymarfer driliau tan yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w diogelu. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofrestr gynhwysfawr o bob plentyn sy'n cynnwys amseroedd cyrraedd a gadael. Mae niferoedd y staff fel arfer yn rhagori ar ddisgwyliadau'r rheoliadau ac o ganlyniad goruchwylir y plant yn effeithiol iawn. . Mae'r cyfleusterau bwyta, y toiledau a'r basnau ymolchi yn addas i oedran y plant. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid clytiau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn effeithiol.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi plant i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, trwy ddysgu am fywydau a phrofiadau pobl o wahanol gefndiroedd.  Er enghreifft, mae ymarferwyr yn trafod llyfrau sy'n rhoi'r cyfle i blant i ddechrau deall am amrywiaeth o arferion gwahanol dros y byd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r unigolion cyfrifol yn cyd-weithio'n fwriadus gyda'r dirprwy arweinydd i gefnogi a chymell yr ymarferwyr i wella deilliannau'r plant, trwy addysgu cadarnhaol a chynnig gofal bugeiliol llwyddiannus.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r ymddiriedolwyr cefnogol yn llywio cyfeiriad clir i weithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt weledigaeth gadarn, sy'n sicrhau bod profiadau difyr ac ysgogol yn sbarduno gwelliannau yn nysgu a lles y plant. O ganlyniad, mae'r arferion cyson a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar fodloni anghenion y plant.

Mae ymarferwyr yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn llwyddiannus  ac yn adnabod elfennau sydd angen eu gwella.  Er enghraifft maent wedi adnabod nad yw pob un o'r ardaloedd  allanol yn cael eu defnyddio'n gyson ac i'w llawn bwrpas. Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad, fel yr ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr ysgol leol a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r ymarferwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid hyn, ac yn gweithredu'n ddoeth ar unrhyw ganfyddiadau er mwyn gwella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant.

Mae ymarferwyr yn ystyried diddordebau'r plant ac yn cynllunio ac amrywio'r profiadau dysgu.   Maent yn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn ymatebolYn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau rhieni a gofalwyr yn effeithlon, drwy rannu gwybodaeth berthnasol am gynnydd y plant.

Mae’r ymddiriedolwyr yn gefnogol ac maent yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau’r unigolyn cyfrifol a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae ganddynt drefniadau cyson i fonitro arferion y lleoliad. Maent yn dilysu penderfyniadau’r unigolyn cyfrifol a’r ymarferwyr yn rheolaidd i sicrhau perthnasedd i dargedau’r lleoliad. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau yn arwain at dargedau dibynadwy wrth gynllunio i’r dyfodol.

Mae’r unigolyn cyfrifol a’r dirprwy arweinydd yn dyrannu adnoddau yn bwrpasol. Gyda chefnogaeth yr ymddiriedolwyr, maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac maent yn eu cymell a'u hannog i fynychu hyfforddiant gwerthfawr. Mae’r canolbwyntio craff ar ddatblygu medrau’r ymarferwyr yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol. Mae’r defnydd o’r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddeallus. O ganlyniad, mae’r arweinwyr yn hyrwyddo profiadau diddorol i’r plant, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel sgriniau rhyngweithiol.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau cadarn, fel siopau lleol a’r ysgol gyfagos, sydd yn eu cefnogi trwy gynnig profiadau difyr i’r plant fel astudio blodau gyda’r blodeuwr. Mae’r cydweithio agos gyda’r ysgol yn paratoi’r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/04/2022